

Cytundeb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Cytundeb Partneriaeth rhwng Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a chynghorau gwasanaethau gwirfoddol Gogledd Cymru ar ran sefydliadau trydydd sector yng Ngogledd Cymru.



Cyflwyniad

Mae'r Cytundeb hwn yn gytundeb partneriaeth rhwng Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Comisiynydd) a'r chwe chynghor gwasanaethau gwirfoddol yng Ngogledd Cymru ar ran y trydydd sector yng Ngogledd Cymru ac mae wedi'i gytuno arno gan y swyddogion sy'n gyfrifol am y sefydliadau perthnasol.

Mae'n darparu fframwaith ar gyfer gwella ymgysylltiad, datblygu nodau ac amcanion a rennir, meithrin parch a dealltwriaeth y naill at y llall a bydd hefyd yn cynorthwyo'r Comisiynydd a phartneriaid trydydd sector i wella ansawdd gwasanaethau ar gyfer pobl Gogledd Cymru.

Mae llwyddiant y Cytundeb yn dibynnu ar ymrwymiad y ddau barti. Gall cydweithio gryfhau perthnasau gwaith sydd eisoes yn bodoli ac ar adeg o bwysau economaidd gall alluogi pob parti i ymateb i heriau'r dyfodol. Bydd gweithio'n agosach yn galluogi sefydliadau i wneud y mwyaf o adnoddau a gwybodaeth ac i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Y rhai sy'n rhan o'r cytundeb hwn yw:

SEFYDLIAD PARTNER		CADAIARYDDION	LLOFNOD
Medrwn Môn, Ynys Môn		Dilys Shaw	
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy		Maggie Kelly	
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych		Derek Barker	
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Y Fflint		Michael Dixon	
Mantell Gwynedd		Gwen Griffith	
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)		John Leece Jones	
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru		Winston Roddick QC CB	

Cytunwyd ar y Cytundeb gan y partneriaid uchod ar 1af Ebrill 2014. Bydd yn cael ei adolygu ym Mawrth 2015.

Rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yw'r corff llywodraethu lleol ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Mae ar y Comisiynydd gyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n dangos gwerth am arian ac, yn bwysicaf oll, yn lleihau trosedd.

Mae ar y Comisiynydd bedair prif ddyletswydd, sef:

- Gosod y blaenoriaethau ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru
- Penderfynu ar y gyllideb ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru
- Dal y Prif Gwnstabl yn atebol.
- Gwrando ar farn y cyhoedd ynglŷn â phlismona.

Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, mae gan y Comisiynydd amrediad o bwerau a chyfrifoldebau, gan gynnwys:

- Bod yn atebol i'r etholaeth a chynrychioli'r cyhoedd ar faterion plismona
- Paratoi Cynllun Heddlu a Throsedd sy'n amlinellu'r cyfeiriad strategol a'r amcanion ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru.
- Gosod y praesept plismona, sef yr elfen o dreth y cyngor sy'n mynd tuag at blismona.
- Gweithio gyda phartneriaid i atal a thaclo troseddu ac aildroseddu
- Dal yr Heddlu'n atebol, drwy'r Prif Gwnstabl, am ddarpariaeth gwasanaethau plismona.
- Penodi, ac os bydd angen, diswyddo'r Prif Gwnstabl
- Goruchwyllo cwynion yn erbyn Heddlu Gogledd Cymru
- Comisiynu gwasanaethau a phrosiectau diogelwch cymunedol yn yr ardal.
- Sicrhau y gweithredir ar flaenoriaethau'r cyhoedd, yr ymgynghorir â dioddefwyr ac nad yw'r unigolion mwyaf diamddiffyn yn cael eu hesgeuluso.
- Sicrhau gwerth am arian

Rôl y Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol

Bydd y chwe Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (CGC) yn cyd-lofnodi'r Cytundeb. Nhw yw'r sefydliadau ymbarél sy'n cefnogi, hyrwyddo a chynghori sefydliadau gwirfoddol a chymunedol lleol. Maent yn cefnogi gweithredoedd gwirfoddol drwy gefnogi'r gwaith o wirfoddoli, cynghori ar arferion da, darparu gwybodaeth ar ffynonellau cyllid ac amrywiaeth o wasanaethau eraill.

Mae'r term 'trydydd sector' fel y cyfeirir ato yn y ddogfen hon yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a buddiannau gwirfoddoli sy'n cynnwys elusennau ledled y DU a'u canghennau lleol, sefydliadau sirol, grwpiau cymunedol anffurfiol, mentrau cymdeithasol, cydweithredol a grwpiau hunan gymorth.

O fewn y Cytundeb bydd y Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol yn rhoi cyfle i'r Trydydd Sector a'u defnyddwyr gwasanaeth gael llais ac i gael eu clywed a sicrhau cydnabyddiaeth ar gyfer yr effaith sylweddol y mae sefydliadau gwirfoddol yn ei gyfrannu i ddiogelwch a chydlynid cymunedol.



Nodau'r Cytundeb

Nod y Cytundeb hwn yw datblygu'r bartneriaeth rhwng y Comisiynydd a'r trydydd sector yng Ngogledd Cymru er mwyn hyrwyddo diogelwch cymunedol a lleihau trosedd er mwyn cyfrannu at wneud Gogledd Cymru yn lle diogel a phleserus i fyw.

Bydd y Cytundeb yn:

- Sefydlu ymgysylltiad a chyfathrebu dwy ffordd fel bo gan y Cyngorau Gwasanaethau Gwirfoddoli a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fecanwaith cadarn er mwyn gallu ymgynghori â'r trydydd sector.
- Sicrhau y gall y trydydd sector ddylanwadu ar y gwaith o gynllunio a datblygu wrth ddelio â materion diogelwch cymunedol lleol.
- Hyrwyddo dealltwriaeth a pharch rhwng y partiön drwy greu strwythur clir ar gyfer deialog ac ymgysylltiad.
- Creu cydweithio effeithiol er budd pobl Gogledd Cymru drwy ddod â sefydliadau tebyg at ei gilydd a'u helpu i rannu arfer da.

Gwerthoedd ac Egwyddorion

Yn cynnal y Cytundeb hwn mae'r gwerthoedd canlynol, sy'n cael eu rhannu gan partiön:

Parch

Gonestrwydd

Tegwch

Unplygrwydd

Bydd cadw at y gwerthoedd hyn yn sicrhau

- Parch tuag at, a gwerthfawrogiad o gyfraniad pob partner o ba bynnag faint
- Parch tuag annibyniaeth sefydliadau trydydd sector
- Parch tuag at natur strategol a rhanbarthol rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Prosesau Comisiynu agored
- Gonestrwydd ynghylch capasiti a gallu i ddarparu gwasanaethau
- Gweithredu prosesau teg a thryloyw
- Gwneud penderfyniadau teg yn seiliedig ar brosesau a gweithdrefnau teg a thryloyw

Amcanion

1. Cynnal perthynas gadarnhaol drwy weithredu strategaethau ymgysylltu effeithiol rhwng y Comisiynydd a'r trydydd sector.
2. Defnyddio arbenigedd a gwybodaeth rheng flaen o sefydliadau trydydd sector er mwyn helpu i ddelio gyda a lleihau trosedd ac anrhefn yng Ngogledd Cymru.
3. Anelu tuag at ragoriaeth, cydraddoldeb mynediad, datblygiad cynaliadwy a gwerth am arian bob amser.



Diogelwch Cymunedol a Gwaith Partneriaeth

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cydnabod yr angen i gydweithio'n agos â phartneriaid er mwyn sicrhau atebion i faterion trosedd ac anrhefn. Mae'r Comisiynydd yn cydweithio ochr yn ochr â sefydliadau sector cyhoeddus megis Heddlu Gogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd Lleol, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Awdurdodau Lleol, partneriaid yn y maes cyfiawnder troseddol a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys cymunedau lleol, er mwyn cyflawni nodau cyffredin yn fwy effeithiol. Mae rôl y Comisiynydd hefyd yn cynnwys cydweithio mewn partneriaeth â'r 4 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru a Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r Comisiynydd yn ymgymryd i weithio mewn partneriaeth â'r chwe chngor gwasanaeth gwirfoddol yng Ngogledd Cymru.

Gall gwaith partneriaeth gynnwys:

- gweithio mewn partneriaeth er mwyn datrys problemau cymdogaeth megis ymddygiad gwrthgymdeithasol
- darparu dioddefwyr â gwasanaethau mwy effeithiol
- darparu dioddefwyr trais domestig â chefnogaeth fel bod ganddynt yr hyder a'r cyfle i geisio cymorth a chefnogaeth
- gwella'r amgylchedd corfforol fel ei fod yn llai tebygol o arwain tuag at droseddu
- gwella'r gwasanaethau ar gyfer y rhai hynny sy'n camddefnyddio sylweddau ond sydd eisiau help i leihau'r niwed y maent yn ei wneud iddynt eu hunain, eu teuluoedd a'n cymunedau, a
- cynorthwyo troseddwyr i ailsefydlu eu hunain ac i wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

Mae sefydliadau'r trydydd sector hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran cynorthwyo'r Comisiynydd i ddelio â'r materion hyn.

Cyfrifoldebau

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol yn cydnabod rôl a chyfrifoldebau ei gilydd. Yn benodol, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd y cydnabod:

- Y cyfraniad gwerthfawr y mae sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn ei wneud i ddiogelwch cymunedol.
- Y gall Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol hwyluso a dylanwadu ar arferion gorau gyda'r nod o gynnal safon uchel o lywodraethu. Fodd bynnag, mae sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn sefydliadau annibynnol sy'n penderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain ac yn rheoli eu materion eu hunain, gan gynnwys yr hawl i ymgyrchu.
- Bod sefydliadau gwirfoddol yn gweithredu o fewn yr egwyddorion y cawsant eu seilio arnynt.
- Y gall Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol unigol gynorthwyo'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd drwy ddatblygiad gweithgareddau ymgynghori.

Mae'r Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol, ar ran y trydydd sector, yn cydnabod:

- Y fframwaith cyfreithiol ac ariannol y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu oddi fewn iddo.
- Bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei graffu arno gan banel Heddlu a Throsedd Annibynnol.
- Mae'r trydydd sector yn cydnabod pwysigrwydd dyletswyddau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran:

Gosod y blaenoriaethau plismona ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru

Penderfynu ar y gyllideb ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru

Dal y Prif Gwnstabl yn atebol

Gwrando ar ac ymateb i safbwyntiau'r cyhoedd am blismona

Nawdd Grantiau Bach

Mae nifer o grwpiau trydydd sector a grwpiau cymunedol sy'n rhedeg prosiectau a chynlluniau arloesol er mwyn helpu i leihau trosedd a gwneud ein cymunedau yn ddiogelach. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dymuno rhoi cymorth ariannol i rai o'r sefydliadau hyn. O ganlyniad, mae'r Comisiynydd wedi sefydlu "cynllun ariannu cyllideb grant cyfranogol". Mae'r cynllun hwn yn galluogi ein cymunedau i wneud penderfyniadau ar brosiectau y dylid eu cefnogi'n ariannol yn eu barn nhw. Mae'r cynllun yn gweithio drwy wahodd sefydliadau i ymgeisio am nawdd. Bydd rhestr fer yn cael ei llunio ac yna cynhelir pleidlais gyhoeddus. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir am y cyllid hwn yn cael eu gwneud gan y cyhoedd.

Ymgynghoriad a Gwerthuso Polisi

Mae gan sefydliadau'r hawl i herio ar faterion sy'n effeithio arnynt. Yn fwy na hynny, fe allai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, o bryd i'w gilydd, ymgynghori â sefydliadau trydydd sector ar faterion, prosiectau neu bolisiâu penodol. Cytunir y bydd ymgynghori o'r fath:

- Yn briodol ac yn berthnasol ar gyfer y grŵp targed
- Yn ddilys ac yn dryloyw, gan wneud yn glir yr agweddau y gellir eu newid a'r rhai na ellir eu newid.
- Yn hygyrch ac ar gael i sefydliadau mawr a llai fel ei gilydd.
- Yn amserol ac yn digwydd cyn i benderfyniadau gael eu gwneud.

Fe'i cydnabyddir yn arfer dda caniatáu 13 wythnos ag eithrio gŵyl y banc a gwyliau cyhoeddus eraill ar gyfer ymgynghori cyn y gwneir penderfyniad ac yn achos penderfyniadau mwy megis y Cynllun Heddlu a Throsedd, dyma isafswm y cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, gyda rhai materion polisi ac ymgynghoriadau llai, ni fydd modd i'r Comisiynydd glustnodi cymaint o amser. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd bob amser yn ceisio sicrhau'r amser hiraf posibl er mwyn sicrhau ymgynghoriad cywir a chlr a bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i leihau effaith cyfnodau ymgynghori byrrach.

Cyfathrebu ac Ymgysylltiad

Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu o fewn Deg Egwyddor Ymgysylltu Cyfranogaeth Cymru (gweler Atodiad A). Yn fwy na hynny, mae'r Comisiynydd yn sefydlu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu sy'n cynnwys manylion yr egwyddorion ymgysylltu a chyfathrebu bwriadus y bydd y Comisiynydd yn ymgymryd â nhw. Bydd ymgysylltiad y Comisiynydd â sefydliadau trydydd sector yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn y strategaeth ac yn benodol mae'r Comisiynydd yn cytuno gyda sefydliadau trydydd sector i gyflawni'r trefniadau canlynol.



Digwyddiad Ymgysylltu Blynyddol

- Bob blwyddyn cyn cyhoeddi'r Cynllun Heddlu a Throsedd newydd, bydd un o Chwe Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Gogledd Cymru¹, yn ei dro, yn darparu lleoliad ac adnoddau addas ar gyfer cynnal cyfarfod ymgysylltu rhwng y Comisiynydd a'r holl sefydliadau trydydd sector perthnasol² yng Ngogledd Cymru. Bydd y digwyddiad hwn yn agored i bawb ac ni fydd yn gyfyngedig i sefydliadau cysylltiedig â'r cynghorau gwasanaethau gwirfoddol.
- Bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn mynychu'r digwyddiad er mwyn ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector. Yn y digwyddiad, bydd y Comisiynydd yn:
 - o Adolygu'r cynllun heddlu a throsedd ac amcanion heddlu a throsedd y flwyddyn flaenorol a rhoi diweddariad am y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â nhw.
 - o Rhannu amcanion heddlu a throsedd sydd wedi eu cynllunio am y flwyddyn sydd i ddod ac amlinellu'r blaenoriaethau uniongyrchol.
 - o Gwrando ac ymateb i gwestiynau ar yr uchod.
 - o Gwrando ac ymateb i gwestiynau cyffredinol am blismona a throseddu yng Ngogledd Cymru.
 - o Cytuno ar y Cytundeb am y flwyddyn sydd i ddod.
- Os oes gan y Comisiynydd wybodaeth fanylach i'r mynychwyr ei hystyried, bydd y wybodaeth hon ar gael drwy'r cynghorau gwasanaethau gwirfoddol o leiaf 10 diwrnod cyn y cyfarfod ymgysylltu.
- Bydd y cyfarfod yn cael ei gofnodi a chynhyrchir cofnodion gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Ymweliadau â sefydliadau trydydd sector unigol

Mae'n bwysig bod y Comisiynydd yn meithrin ymwybyddiaeth o weithgareddau rheng flaen y sefydliadau trydydd sector er mwyn gallu deall yn iawn y galw sydd am eu gwasanaethau a sut y byddant yn cael eu darparu. Felly, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cytuno i ymweld ag amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector unigol mewn lleoliadau lle darperir eu gwasanaethau. Bydd yr ymweliadau yn ymestyn i sefydliadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau diogelwch cymunedol a byddant yn galluogi'r Comisiynydd i weld y materion rheng flaen sy'n eu hwynebu a'r effaith y mae'r gwasanaethau hyn yn eu cael ar y gymuned. Mae'r Comisiynydd yn ceisio cyfarfod ag o leiaf 6 sefydliad y flwyddyn. Gwahoddir sefydliadau sy'n dymuno cael eu hystyried am ymweliad i lenwi'r ffurflen yn Atodiad D ac i'w dychwelyd i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Gwefan - Adran y Trydydd Sector - am wybodaeth am weithgaredd Comisiynu ac Ymgysylltu

Yn unol â'r strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu, un o brif declynnau'r Comisiynydd ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd yw ei chyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Comisiynydd wedi creu tudalen benodol ar ei wefan ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r Trydydd Sector. Mae hyn yn cynnwys y Polisi Comisiynu ac adborth o'i weithgareddau ymgysylltu.

¹Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Medrwn Môn, Mantell Gwynedd, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, AVOW – Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Wrecsam.

²Mae "Sefydliadau Perthnasol" yn cyfeirio at sefydliadau trydydd sector sydd â chylch gwaith yn ymwneud â diogelwch cymunedol, atal trosedd, lleihau trosedd, cefnogi/rheoli troseddwyr, dioddefwyr, tystion neu gefnogi teuluoedd ac ati.



Cronfa Ddata o gysylltiadau Trydydd Sector

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadw cronfa ddata o gysylltiadau er mwyn gallu rhannu gwybodaeth berthnasol â phobl mewn cymunedau lleol. Mae'r holl sefydliadau trydydd sector yn cael eu hargymhell i gofrestru eu manylion â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fel eu bod yn derbyn diweddariadau a gwybodaeth berthnasol am faterion a digwyddiadau lleol gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r trydydd sector yn cadw at yr hyn a nodir yn Neddff Cydraddoldeb 2010. Mae'r Comisiynydd yn cyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus gan ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu, datblygu cyfleoedd cyfartal a hyrwyddo perthnasau da rhwng pobl. Yn fwy na hynny, bydd y Comisiynydd yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion cydraddoldeb a'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Bydd statws gydradd i'r Cymraeg â'r Saesneg yn y gwasanaethau a gynigir.

Anghydfodau a Phryderon

Os oes gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol, un ai ar y cyd neu'n unigol, unrhyw bryderon am weithrediad y Cytundeb bydd modd iddynt ofyn i'r Panel Heddlu a Throsedd Annibynnol am ddatrysiad.

Adolygu

Bydd y Comisiynydd heddlu a Throsedd a'r chwe chyngor gwirfoddol yn adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd y Cytundeb yn flynyddol.

Polisiâu Perthnasol

Gweler isod restr o'r Polisiâu sy'n tanategu ac yn cefnogi'r Cytundeb hwn.

[Cynllun Heddlu a Throsedd](#)

[Cyfranogaeth Cymru – Egwyddorion Ymgysylltu](#)

[Cynllun Cydraddoldeb Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru](#)

[Polisi Gohebiaeth](#)

[Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd](#)



Atodiad A

Cyfranogaeth Cymru – 10 Egwyddor Ymgysylltu

1. Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth

Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisiau, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.

2. Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny

Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

3. Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol

Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

4. Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol

Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

5. Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall

Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.

6. Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan

Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.

7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol

Dylai'r prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.

8. Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol

Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.

9. Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad

Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.

10. Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu

Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfranogiad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol.

Cafodd yr egwyddorion hyn eu datblygu gan Cyfranogaeth Cymru trwy weithio gyda TPAS Cymru, o dan arweiniad partneriaeth Cyfranogaeth Cymru. Cawsant eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae arweiniad pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gael o

www.participationcymru.org.uk

Mawrth 2011



Atodiad B

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Cais am ymweliad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd â Sefydliad Trydydd Sector/Sector Gwirfoddol

ENW LLAWN Y SEFYDLIAD

ENW CYSWLLT

CYFEIRIAD (YM MHA EIDDO/LLEOLIAD Y DARPERIR Y GWASANAETHAU)

RHIF FFÔN

EBOST

MANYLION GWEFAN

DIBEN/RÔL Y SEFYDLIAD

SUT MAE'R SEFYDLIAD YN EFFEITHIO AR FATERION YN YMWNEUD Â THROSEDD A
DIOGELWCH CYMUNEDOL?

A OES UNRHYW FATERION PENODOL YR HOFFECH EU TRAFOD GYDA'R COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDD YN YSTOD EI YMWELIAD?

Ar brydiau, bydd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn hysbysu'r wasg am ymweliadau lleol. Os nad ydych yn dymuno cael cyhoeddusrwydd i ymweliad y Comisiynydd, ticiwch yma os gwelwch yn dda.

Dychweler y ffurflen i: Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Glan-y-Don, Bae Colwyn, LL29 8AW neu anfonwch y ffurflen drwy neges e-bost at opcc@nthwales.pnn.police.uk

